# Dweud wrthym



Gallwch ddweud wrthym beth rydych yn feddwl o PSS unrhyw bryd



Os yw PSS yn gwneud rhywbeth rydych chi'n ei hoffi, dywedwch wrthym amdano fel y gallwn ni wneud mwy ohono



Os yw PSS yn gwneud rhywbeth nad ydych chi'n ei hoffi, dywedwch wrthym ni amdano fel y gallwn wella




Gallwch ddweud wrth y person sy'n eich cefnogi neu gallwch ddweud wrth ein tîm ansawdd




Gallwch ddweud eich barn wrth ein tîm ansawdd drwy anfon e-bost at tellus@pss.org.uk



Gallwch hefyd siarad gyda'n tîm ansawdd dros y ffôn drwy alw 0151 702 5555.



Neu gallwch anfon neges destun at y tîm ansawdd ar 07599656850



Neu gallwch ysgrifennu at y tîm ansawdd yn The Tell Us Team, Eleanor Rathbone House, Connect Business Village, 24 Derby Road, L59P5



Bydd beth rydych yn ei ddweud yn ein helpu i wella



Os oes angen unrhyw help arnoch, gallwch ein galw ar 0151 702 5555

# Beth i'w ddweud wrthym



Mae PSS yn cefnogi pobl gyda llawer o bethau gwahanol



Mae PSS eisiau gwneud yn siŵr eich bod yn hapus gyda'ch cefnogaeth



Pan fyddwch yn hapus gyda'ch cefnogaeth gallwch roi canmoliaeth i ni



Canmoliaeth yw pan fyddwch yn dweud rhywbeth cadarnhaol wrthym am eich cefnogaeth gan PSS




Gallwch roi canmoliaeth am aelod o staff sy'n eich cefnogi yn PSS




Gallwch roi canmoliaeth am y gwasanaeth sy'n eich cefnogi yn PSS



Mae canmoliaeth yn beth da oherwydd mae'n dweud wrthym pan rydym yn gwneud rhywbeth yn dda



Mae canmoliaeth yn dweud wrthym ein bod yn gwneud y peth iawn a’n bod yn gallu parhau i'w wneud



Byddwn yn ei rannu gyda’r gwasanaeth sy’n eich cefnogi



Byddwn yn ei rannu gyda’r staff sy’n eich cefnogi




Pan fyddwch yn anhapus gyda'ch cefnogaeth gallwch wneud cwyn



Cwyn yw pan fyddwch yn dweud wrthym eich bod yn anhapus gyda rhywbeth yn PSS



Gallwch wneud cwyn am aelod o staff yn PSS




Gallwch wneud cwyn am wasanaeth sy'n eich cefnogi yn PSS



Mae cwynion yn ddefnyddiol oherwydd maen nhw'n dweud wrthym sut y gallwn ni wella



Pan nad yw pobl yn rhannu eu cwynion gyda ni, nid ydym yn gwybod beth sydd angen ei newid.



Mae gwrando ar gwynion yn golygu ein bod yn gallu newid pethau



Mae cwynion yn dweud wrthym sut i wella pethau

# Beth sy'n digwydd pan fyddaf yn gwneud cwyn?



Byddwn yn gwrando ar eich cwyn



Byddwn yn cofnodi'r wybodaeth rydych yn ei rhannu â ni




Bydd yn cael ei gofnodi ar ein system ar-lein




Bydd hyn yn digwydd o fewn 24 awr



Byddwn yn rhannu'r wybodaeth gyda'r aelod staff PSS cywir




Bydd aelod o staff PSS yn cysylltu â chi o fewn pum diwrnod gwaith




Mae pum diwrnod gwaith yn golygu cyfanswm o bum niwrnod, sef dydd Llun, dydd Mawrth, dydd Mercher, dydd Iau a dydd Gwener



Byddan nhw'n dweud wrthych ein bod wedi derbyn eich cwyn



Efallai y byddan nhw’n eich ffonio



Efallai y byddan nhw'n anfon e-bost atoch chi neu'n ysgrifennu llythyr atoch chi



Efallai y byddan nhw'n siarad â chi wyneb yn wyneb



Communicate

Byddwn yn cyfathrebu â chi mewn ffordd sy'n gweithio i chi



Byddwn yn ymchwilio i'ch cwyn




Gall gymryd hyd at 12 wythnos i PSS orffen ymchwilio i'ch cwyn



Byddwn yn cysylltu â chi unwaith y byddwn wedi gorffen ymchwilio i'ch cwyn.



Byddwn yn cysylltu â chi mewn ffordd sy'n gweithio i chi.



Os ydych chi'n anfodlon â chanlyniad eich cwyn gallwch chi wneud apêl



Mae apêl yn golygu eich bod chi i'r gŵyn gael ei hystyried eto

# Sut i wneud apêl




Bydd angen i chi ddweud wrthym eich bod am wneud apêl



Bydd angen i chi ddweud wrthym o fewn 15 diwrnod o gael gwybod canlyniad eich cwyn




Bydd aelod o staff PSS yn cysylltu â chi o fewn pum diwrnod gwaith



Byddan nhw'n dweud wrthych chi a ydym wedi derbyn eich apêl ai peidio



Os byddwn yn derbyn eich apêl, bydd uwch aelod o staff yn ymchwilio i'ch cwyn.



Os na fyddwn yn derbyn eich apêl, byddwn yn egluro pam.




Gall apêl gymryd hyd at 12 wythnos



Pan fyddwn wedi gorffen ymchwilio i'ch apêl, byddwn yn dweud wrthych beth yw'r canlyniad




Os nad ydych yn hapus â chanlyniad eich apêl, gallwch gysylltu â sefydliadau y tu allan i PSS am gyngor



Byddwn yn rhoi rhestr i chi o sefydliadau y gallwch gysylltu â nhw

Dyma rai sefydliadau y gallwch gysylltu â nhw:

- Comisiynydd gwasanaeth PSS
- Ombwdsmon lleol
- Cyngor ar Bopeth
- Gwasanaethau eiriolaeth arbenigol
- Canolfan Gyfraith
- Cyfreithiwr preifat
- Comisiwn Ansawdd Gofal (CQC)
- Arolygiaeth Gofal Cymru (CIW)
- Comisiwn Elusennau
- Shared Lives Plus

# Rwy’n poeni am wneud cwyn



Nid ydym eisiau i chi deimlo'n bryderus ynglŷn â gwneud cwyn.



Byddwch yn dal i gael cefnogaeth wych os byddwch yn gwneud cwyn



Os ydych chi'n poeni eich bod chi'n cael eich cefnogi'n wahanol oherwydd eich bod chi wedi gwneud cwyn, gallwch gysylltu â'r tîm ansawdd




Gallwch rannu eich barn gyda’n tîm ansawdd drwy anfon e-bost at tellus@pss.org.uk



Gallwch hefyd siarad â'n tîm ansawdd ar y ffôn drwy alw 0151 702 5555.



Neu gallwch anfon neges destun at y tîm ansawdd ar 07599656850



Neu gallwch ysgrifennu at y tîm ansawdd yn The Tell Us Team, Eleanor Rathbone House, Connect Business Village, 24 Derby Road, L59P5

# Gwneud cwyn yn ddienw



Gallwch hefyd wneud cwyn yn ddienw




Mae dienw yn golygu nad ydych chi'n dweud eich enw wrthym ni



Nid ydych yn rhannu unrhyw fanylion gyda ni felly nid ydym yn gwybod pwy ydych chi



Mae gwneud cwyn yn ddienw yn golygu y gall fod yn anoddach ymchwilio iddi



Gallai olygu nad ydym yn gallu ei wneud gan nad oes gennym ddigon o wybodaeth



Ni fyddwn yn rhoi unrhyw ddiweddariadau i chi gan na fyddwn yn gwybod pwy ydych chi

# Pa gymorth alla i ei gael i wneud cwyn?




Gallwch gael cyfieithydd ar y pryd os oes ei angen arnoch



Cyfieithydd yw rhywun a fydd yn dweud y wybodaeth wrthych mewn iaith rydych chi'n ei deall




Gallwch ofyn am addasiadau rhesymol




Addasiadau rhesymol yw pethau y gallwn eu gwneud i wneud rhywbeth yn fwy hygyrch i chi




Gallwch ofyn am gymorth gan aelod o staff PSS neu ffrind gyda'ch caniatâd




Mae caniatâd yn golygu eich bod yn cytuno i rywbeth




I roi caniatâd mae angen i chi fod â'r gallu




Mae bod â’r gallu yn golygu eich bod chi'n gallu gwneud penderfyniadau



Gallwch gofio eich penderfyniad



Gallwch ddeall y penderfyniad rydych chi'n ei wneud



Gallwch chi roi gwybod i rywun am eich penderfyniad



I wybod a oes gennych chi’r gallu ai peidio, efallai y bydd angen cynnal asesiad galluedd meddyliol ar gyfer y penderfyniad hwnnw




Os nad oes gennych y gallu, bydd angen i rywun wneud penderfyniad ar eich rhan



Gallai'r person hwn fod yn warcheidwad cyfreithiol



Gwarcheidwad cyfreithiol yw rhywun sy'n gallu gwneud penderfyniadau drosoch yn gyfreithiol



Gallant fod yn rhywun sy'n gweithio er eich lles chi ac nad ydyn nhw'n gweithio yn PSS



Gallant fod yn rhywun sydd ag Atwrneiaeth Arhosol




Mae Atwrneiaeth Arhosol yn ddogfen gyfreithiol sy'n caniatáu i chi ddewis pobl ddibynadwy i wneud penderfyniadau ar eich rhan.



Gall rhywun ei wneud ar eich rhan os ydych chi'n rhy sâl yn gorfforol i'w wneud

# A all rhywun wneud cwyn ar fy rhan?



Gall rhiant, ffrind, aelod o'r teulu neu ofalwr wneud cwyn ar eich rhan



Gall gweithiwr proffesiynol rydych chi'n gweithio gydag ef wneud cwyn ar eich rhan



Gall eiriolwr wneud cwyn ar eich rhan



Eiriolwr yw rhywun sy'n sicrhau bod eich llais yn cael ei glywed




Bydd angen eich caniatâd ar unrhyw un sy'n gwneud y gŵyn ar eich rhan



Os byddwch yn rhoi caniatâd, y person hwn fyddai eich cynrychiolydd



Cynrychiolydd yw person sy'n gweithredu ar eich rhan



Bydd unrhyw benderfyniadau sy’n cael eu gwneud yn cael eu rhannu gyda chi a'ch cynrychiolydd

# Beth os yw fy nghwyn yn ymwneud â gwahaniaethu neu ormes rydw i wedi'i brofi neu ei weld?



Gwahaniaethu yw pan fydd rhywun yn cael ei drin yn wahanol oherwydd nodwedd warchodedig




Mae gan gyfraith y DU naw categori o nodweddion gwarchodedig



Oedran



Anabledd



Ailbennu rhywedd



Priodas a phartneriaeth sifil



Beichiogrwydd a mamolaeth



Hil



Crefydd neu gred grefyddol



Rhyw



Cyfeiriadedd rhywiol



Gormes yw defnyddio pŵer i drin pobl yn annheg



Os ydych chi wedi profi gwahaniaethu neu ormes yn PSS mae angen i chi ddweud wrthym ni




Os ydych chi wedi gweld rhywun arall yn profi gwahaniaethu neu ormes yn PSS mae angen i chi ddweud wrthym ni



Mae'n bwysig eich bod yn dweud wrthym ni fel y gallwn ni gadw pawb yn PSS yn ddiogel



Ni fyddwn yn gadael i bobl gael eu gwahaniaethu na theimlo eu bod yn wynebu gormes yn PSS




Rydyn ni eisiau sicrhau bod pawb yn PSS yn teimlo eu bod nhw'n perthyn